Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Dogfen Ôl-Ymgynghori

# Cynnig i ymgynghori ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy

## Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... **5**
**Cyhoeddi'r Ymgynghoriad** .......... **5**
Rhestr yr Ymgyngoreion .......... 5
Ymgyrch Cyfathrebu .......... 6
**Sesiynau Ymgynghori** .......... **7**
Amserlen y Sesiynau Galw Heibio .......... 7
**Adborth am yr Ymgynghoriad** .......... **8**
Ymatebwyr .......... 9
Ymatebion i'r Arolwg Ar-lein gan Oedolion .......... 10
Ymatebion i'r Arolwg Ar-lein gan Blant a Phobl Ifanc .......... 10
**Cynghorau Ysgol** .......... **11**
Adborth gan y Cyngor Ysgol-Ysgol Froncysyllte .......... 11
Sylwadau Ysgrifenedig gan y Cyngor Ysgol-Ysgol Froncysyllte .......... 11
Adborth gan y Cyngor Ysgol-Ysgol y Garth .......... 12
Sylwadau Ysgrifenedig gan y Cyngor Ysgol-Ysgol y Garth .......... 12
Adborth gan y Cyngor Ysgol-Ysgol Pentre .......... 12
Sylwadau Ysgrifenedig gan y Cyngor Ysgol-Ysgol Pentre .......... 12
**Adborth gan Estyn** .......... **13**
Cyflwyniad: .......... 13
Disgrifiad a Manteision: .......... 13

Agweddau Addysgol y Cynnig ..... 14
Crynodeb/Casgliad: ..... 14
**Adborth gan yr Undeb Athrawon-NASUWT Cymru ..... 14**
Casgliad: ..... 14
**Llythyr gan Steve Witherden AS ..... 15**
Dyfarniad ..... 15
**Adborth trwy E-bost ..... 15**
E-bost 1 ..... 15
E-bost 2 ..... 15
E-bost 3 ..... 16
E-bost 4 ..... 16
**Themâu'r Ymgynghoriad ..... 16**
Y Gymraeg ..... 18
Trin Pawb yn Deg ..... 20
Carbon ..... 21
**Data Monitro Cydraddoldeb-'Amdanoch Chi' ..... 22**
Oedran ..... 22
Rhyw ..... 23
Ailbennu Rhywedd ..... 23
Hunaniaeth Hiliol-Genedlaethol ..... 24
Anabledd ..... 24

Gofalwr ....................................................................................................................................................................25
Iaith..........................................................................................................................................................................25
Hil-Ethnigrwydd........................................................................................................................................................26
Crefydd neu Gred (gan gynnwys diffyg cred) .........................................................................................................27
Priodas a Phartneriaeth Sifil ....................................................................................................................................27
Beichiogrwydd a Mamolaeth....................................................................................................................................28
Cyfeiriadedd Rhywiol ...............................................................................................................................................28
Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol-Budd-daliadau sy’n Dibynnu ar Brawf Modd ..........................................29
Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol.................................................................................................................29
Ward Etholiadol ........................................................................................................................................................30
**Cwestiynau Monitro Ansawdd yr Arolwg.....................................................................................................................32**
**Asesiadau Effaith..........................................................................................................................................................34**
Asesiad Effaith Integredig........................................................................................................................................34
Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg .............................................................................................................................34
Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned .............................................................................................................................34
Asesiad o’r Effaith ar Drafnidiaeth ...........................................................................................................................34
**Cwestiynau Cyffredin ....................................................................................................................................................34**
**Crynodeb Cyffredinol o'r Canfyddiadau .......................................................................................................................35**
O blaid y cynnig: .......................................................................................................................................................35
Yn erbyn y cynnig: ....................................................................................................................................................35
Ddim yn siŵr: ............................................................................................................................................................35

**Casgliad ac Ymateb yr Awdurdod Lleol** .... 35
**Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol** .... 36

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cwblhau cyfnod o ymgynghori cyhoeddus yn ddiweddar mewn perthynas â Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar **23 Medi 2025** a daeth i ben ar **7 Tachwedd 2025**.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddilyn Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ac yn rhoi arweiniad i gyrff perthnasol (Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu).
Mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau a gymerwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol, yn cyfeirio at ganfyddiadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac yn ceisio ateb cwestiynau a ofynnwyd i'r Awdurdod Lleol.

## Cyhoeddi'r Ymgynghoriad

Dechreuodd yr ymgynghoriad gyda chyhoeddi'r Ddogfen Ymgynghori yn ddwyieithog ar 23 Medi 2025 ar wefan y Cyngor ac ar lwyfan ymgynghori ar-lein y Cyngor, 'Eich Llais'. Cafodd dolenni i'r dogfennau eu hanfon trwy e-bost i'r rhestr lawn o ymgyngoreion. Dan arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), mae'r manylion isod yn nodi rhestr o'r sawl a dderbyniodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori neu a gafodd eu cyfeirio ati yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**Rhestr yr Ymgyngoreion**
Gofynnwyd i amrywiaeth o unigolion am eu barn ar y cynnig gan gynnwys:

- Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Yr Eglwys yng Nghymru a'r Esgobaethau Catholig
- Awdurdodau Lleol eraill: Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Swydd Amwythig, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Powys, Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer
- Y Corff Llywodraethu yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy
- Holl Gyrff Llywodraethu Ysgolion Wrecsam, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion ffydd ac ysgolion arbennig
- Holl Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Wrecsam, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion ffydd ac ysgolion arbennig
- Rhieni/Gofalwyr (a darpar rieni/gofalwyr) Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy
- Aelodau o staff Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy

- Cyngor Cymuned Llangollen Wledig
- Cyngor Cymuned Tref Y Waun
- Fforwm y Gymraeg mewn Addysg, gan gynnwys Menter Iaith y Fflint a Wrecsam, RhAG a Mudiad Meithrin
- Gweinidogion Cymru ac Aelodau'r Senedd: Lesley Griffiths AS, Ken Skates AS, Llŷr Gruffydd AS, Mark Isherwood AS, Carolyn Thomas AS, Sam Rowlands AS
- Aelodau Seneddol Lleol: Andrew Ranger AS, Gill German AS, Becky Gittins AS
- Estyn
- Undebau llafur sy'n cynrychioli athrawon a staff yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy
- Adran Trafnidiaeth Ysgol Cyngor Wrecsam
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf lleol
- Darparwyr Meithrinfeydd Annibynnol, Grwpiau Chwarae, Gwarchodwyr Plant a Darparwyr Dechrau'n Deg lleol
- Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr, ac roedd yr ymgynghoriad ar agor i bawb oedd yn dymuno cymryd rhan.

Wrth gynnal yr ymgynghoriad, fe wnaethom ddefnyddio ystod o ddulliau i ymgysylltu â phobl. Fe wnaethom gasglu data meintiol ac ansoddol. Gwahoddwyd ymgyngoreion i ymateb i'r ymgynghoriad trwy gwblhau arolwg ar-lein, ffurflen ymgynghori copi caled neu drwy e-bostio neu ysgrifennu at yr Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar. Roedd modd cyflwyno ymatebion yn electronig neu ar ffurf papur copi caled. Roedd y ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg ar gais. Roedd hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch fel print bras, Braille, DVD BSL a CD sain ar gais.

**Ymgyrch Cyfathrebu**

Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad yn eang trwy gydol y cyfnod ymgynghori gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a oedd yn cynnwys:

- Baner 'Eich Llais' ar wefan CBSW
- Rhoi codau QR i gael mynediad i'r arolwg
- Gwybodaeth wedi'i chylchredeg trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol CBSW
- Gwybodaeth wedi'i chylchredeg trwy flog Newyddion Cyngor Wrecsam
- Gwybodaeth wedi'i chylchredeg trwy Fwletin Cynnwys CBSW
- Ymgyrch posteri ardal leol
- Dosbarthu Llyfrynnau Ymgynghori

Roedd nifer o ffyrdd y gallai pobl ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus:

- Arolwg (ar-lein a phapur).
- Nifer o sesiynau galw heibio yng Nghyngor Cymuned Froncysyllte.
- Sefydlwyd cyfrif e-bost pwrpasol er mwyn i bobl allu gofyn unrhyw gwestiynau / cyflwyno eu barn.
- Sesiynau rhithwir i'r rheiny nad oedd yn gallu mynychu sesiynau wyneb yn wyneb.
- Sesiynau penodol gyda disgyblion o'r Cyngor Ysgol ym mhob un o'r 3 ysgol.

## Sesiynau Ymgynghori

Fel rhan o'r broses ymgynghori gyhoeddus, cynhaliwyd dwy sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb gan Swyddogion Addysg yng Nghanolfan Gymunedol Froncysyllte. Derbyniodd pawb a fynychodd wybodaeth am y cynnig, cawsant gyfle i ofyn cwestiynau a gofynnwyd iddynt roi adborth i'r ymgynghoriad. Roedd sawl ffordd i wneud hyn. Cynigiwyd sesiynau galw heibio rhithwir hefyd yn ystod yr ymgynghoriad.

**Amserlen y Sesiynau Galw Heibio**

| **Dyddiad** | **Math o Sesiwn** | **Lleoliad** | **Nifer y mynychwyr** |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun 20 Hydref 2025 | Sesiwn Galw Heibio ar agor i bawb | Canolfan Gymunedol Froncysyllte | 7 |
| Dydd Iau 23 Hydref 2025 | Sesiwn Galw Heibio ar gyfer staff, rhieni a llywodraethwyr o bob un o'r 3 ysgol trwy apwyntiad | Canolfan Gymunedol Froncysyllte | 3 |
| Dydd Mawrth 4 Tachwedd 2025 | Sesiynau Rhithwir ar agor i bawb trwy apwyntiad | Ar-lein | 2 |

## Adborth am yr Ymgynghoriad

Yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yr ymatebion canlynol:

| Fformat yr Ymateb | Nifer yr Ymatebion a Gafwyd | O Blaid y Cynnig | Yn Erbyn y Cynnig | Ddim yn Siŵr |
|---|---|---|---|---|
| Arolwg Oedolion-Ymatebion Ar-lein | 14 | 8 | 5 | 1 |
| Arolwg Plant a Phobl Ifanc-Ymatebion Ar-lein | 25 | 15 | 4 | 6 |
| Cyngor Ysgol Froncysyllte-Copïau Caled | 4 | 0 | 3 | 1 |
| Cyngor Ysgol y Garth-Copïau Caled | 5 | 1 | 0 | 4 |
| Cyngor Ysgol Pentre-Copïau Caled | 6 | 2 | 1 | 3 |
| Llythyr drwy e-bost gan Estyn | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Llythyr drwy e-bost gan undeb athrawon-NASUWT Cymru | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Llythyr drwy e-bost gan Steve Witherden AS | 1 | 1 | 0 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ymatebion trwy e-bost a dderbyniwyd gan unigolion | 4 | 3 | 1 | 0 |
| **Nifer yr Ymatebion a Gafwyd** | **61** | **32** | **14** | **15** |

**Ymatebwyr**

Mae dadansoddiad o'r ymatebwyr i'r arolwg oedolion ar-lein wedi'i nodi isod:

| Pwy Ymatebodd | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|
| Aelod o Staff | 1 |
| Aelod o'r Gymuned Leol | 3 |
| Aelod o'r Gymuned Ehangach | 1 |
| Rhiant/Gofalwr/Gwarcheidwad-Ysgol Froncysyllte | 2 |
| Rhiant/Gofalwr/Gwarcheidwad-Ysgol y Garth | 1 |
| Rhieni/Gofalwr/Gwarcheidwad-Ysgol Pentre | 3 |
| Llywodraethwr | 1 |

| | |
|---|---|
| Arall | 2 |
| **Cyfanswm** | **14** |

**Ymatebion i’r Arolwg Ar-lein gan Oedolion**
Mewn ymateb i'r cwestiwn ‘Ydych chi'n cefnogi'r cynnig hwn?’ Roedd 8 o 14 ymatebwr i'r arolwg oedolion o blaid y cynnig, roedd 5 o 14 ymatebwr yn erbyn y cynnig, a dywedodd 1 o 14 ymatebwr nad oedd yn gwybod sut oedd yn teimlo am y cynnig.

Mae ymatebion i'r cwestiwn testun rhydd ‘rhowch wybod i ni pam eich bod o blaid neu yn erbyn y newidiadau arfaethedig’ wedi'u dadansoddi ac mae themâu wedi'u nodi-cyfeiriwch at yr adran ‘Themâu’r Ymgynghoriad’.

**Ymatebion i’r Arolwg Ar-lein gan Blant a Phobl Ifanc**
Mewn ymateb i'r cwestiwn ‘Sut ydych chi’n teimlo am ein syniad?’ dywedodd 15 o 25 o blant a phobl ifanc eu bod o blaid y cynnig, dywedodd 4 o 25 o blant a phobl ifanc eu bod yn erbyn y cynnig, a dywedodd 6 o 25 o blant a phobl ifanc nad oeddent yn gwybod sut roeddent yn teimlo am y cynnig.

Gofynnwyd hefyd i blant a phobl ifanc roi sylwadau os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Dewisodd 10 o blant a phobl ifanc ateb y cwestiwn testun rhydd. Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- “Hapus”
- “Rwy'n teimlo'n iawn am y peth”
- “Oherwydd dylen ni gael plant yn dod i Bentre a’r Garth”
- “Oherwydd gallen ni fod yn ysgol ychydig yn fwy”
- “Rwy'n teimlo mai opsiwn 2 yw'r un gorau a dylai fod â'r potensial mwyaf o ddigwydd i helpu'r athrawon sy'n dioddef yn ariannol”
- “Rwy'n credu y dylai Fron gau”
- “Rwy'n hoffi'r ysgol hon”
- “Dydw i ddim yn hoffi hyn oherwydd fy mod i wedi tyfu i fyny yn yr ysgol hon. Rydw i wedi bod yn yr ysgol hon ers 3 blynedd a hanner a dydw i ddim eisiau mynd i unrhyw ysgol arall”
- “Rwy'n teimlo y dylech ei chadw ar agor oherwydd byddai'n rhaid i ni brynu gwisgoedd ysgol newydd”

- “Trist”

## Cynghorau Ysgol

Yn ystod yr ymgynghoriad, cyfarfu Swyddogion yr Awdurdod Lleol â'r Cyngor Ysgol ym mhob un o ysgolion y Ffederasiwn.

| Dyddiad | Math o Sesiwn | Lleoliad | Nifer y mynychwyr |
|---|---|---|---|
| Dydd Iau 16 Hydref 2025 | Cyngor Ysgol | Ysgol Froncysyllte | 4 plentyn |
| Dydd Iau 16 Hydref 2025 | Cyngor Ysgol | Ysgol y Garth | 5 plentyn |
| Dydd Llun 13 Hydref 2025 | Cyngor Ysgol | Ysgol Pentre | 6 plentyn |

Yn ystod y sesiynau Cyngor Ysgol, gofynnwyd i'r plant a oeddent wedi gweld copïau o'r ddogfen ymgynghori. Esboniodd swyddogion beth oedd pwrpas yr ymgynghoriad, ac anogwyd y plant i ofyn cwestiynau a rhannu unrhyw syniadau oedd ganddynt.

**Adborth gan y Cyngor Ysgol-Ysgol Froncysyllte**
Mewn ymateb i'r cwestiwn ‘Ydych chi'n deall ein syniad?’ dywedodd 3 allan o 4 disgybl eu bod yn deall ein syniad a dywedodd 1 allan o 4 disgybl nad oeddent yn siŵr a oeddent yn deall ein syniad.

Mewn ymateb i'r cwestiwn ‘Sut ydych chi’n teimlo am ein syniad?’ dywedodd 3 allan o 4 disgybl nad oeddent yn hoffi'r syniad a dywedodd 1 allan o 4 disgybl nad oeddent yn gwybod a oeddent yn hoffi'r syniad.

**Sylwadau Ysgrifenedig gan y Cyngor Ysgol-Ysgol Froncysyllte**

- “Dw i'n teimlo'n drist oherwydd dydw i ddim eisiau mynd i ysgol arall. Dw i'n teimlo'n hapus yma. Mae fy ffrindiau yma. Byddwn i wrth fy modd pe bai’n aros ar agor”
- “Dw i'n teimlo'n drist oherwydd fy mod i'n hoff o fod yn yr ysgol hon. Mae gen i ffrindiau”
- “Rydyn ni’n hoffi’r ysgol oherwydd ein bod yn gwneud llawer o bethau ac ni fyddem yn gallu mynd ar lawer o dripiau pe baem yn ysgol fawr. A dw i'n teimlo'n drist oherwydd fy mod i'n caru'r ysgol hon yn fwy nag unrhyw ysgol arall a dydw i ddim eisiau gadael nes fy mod i ym mlwyddyn 6. Ac rydyn ni'n ffrindiau yn yr ysgol hon. Ac mae'n hwyl yma, oherwydd rydyn ni'n mynd ar lawer o dripiau”
- “Dw i'n credu y dylen ni gadw'r ysgol ar agor oherwydd efallai nad oes gan rai pobl yr arian i brynu gwisgoedd newydd. Dw i'n teimlo'n drist oherwydd fy mod i'n hoffi’r ysgol ac mae'n hwyl”

**Adborth gan y Cyngor Ysgol-Ysgol y Garth**
Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Ydych chi'n deall ein syniad?' dywedodd 5 allan o 5 disgybl eu bod nhw'n deall ein syniad.

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Sut ydych chi'n teimlo am ein syniad?' dywedodd 1 allan o 5 disgybl eu bod yn hoffi'r syniad a dywedodd 4 allan o 5 disgybl nad oeddent yn gwybod a oeddent yn hoffi'r syniad.

**Sylwadau Ysgrifenedig gan y Cyngor Ysgol-Ysgol y Garth**

- "Dydw i ddim yn hoffi opsiwn 3 oherwydd dydw i ddim yn hoffi torfeydd ac rydw i newydd symud yma ac rydw i wrth fy modd. Dydw i ddim eisiau symud eto. Ond dw i'n hoffi opsiwn 2 os ydyn nhw'n iawn gydag o"
- "Does dim ots gen i os yw Fron yn dod i'r Garth, ond cadwch yr ysgol fach yr un fath"
- "Dydw i ddim yn hoffi opsiwn 3 oherwydd dydw i ddim yn hoffi torfeydd. Ac mae'n rhaid i chi ddringo llwythi o risiau. Dw i'n hoffi opsiwn 2 dim ond os ydyn nhw'n fodlon ag o"
- "Aros yr un fath! Dw i wrth fy modd â sut mae hi nawr. Does dim ots gen i os daw Fron yma ond mae'n dibynnu beth maen nhw'n ei feddwl. Ond dw i wrth fy modd â sut mae hi NAWR!"
- "Dw i'n credu y dylen ni aros union yr un fath a pheidio â newid unrhyw beth. Dydw i ddim yn hoffi opsiwn tri, oherwydd dw i'n caru'r ysgol hon a dw i'n credu nad yw'n syniad da o gwbl! A bydd yn costio llawer o arian a bydd rhaid i ni golli'r ysgol am ychydig ddyddiau. Dydw i ddim yn hollol siŵr am opsiwn 2. Oherwydd efallai na fydd Fron yn hapus"

**Adborth gan y Cyngor Ysgol-Ysgol Pentre**
Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Ydych chi'n deall ein syniad?' dywedodd 5 allan o 6 disgybl eu bod yn deall ein syniad a dywedodd 1 allan o 6 disgybl nad oedd yn deall ein syniad.

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Sut ydych chi'n teimlo am ein syniad?' dywedodd 2 allan o 6 disgybl eu bod yn hoffi'r syniad, dywedodd 1 allan o 6 disgybl nad oedd yn hoffi'r syniad, a dywedodd 3 allan o 6 disgybl nad oeddent yn gwybod a oeddent yn hoffi'r syniad.

**Sylwadau Ysgrifenedig gan y Cyngor Ysgol-Ysgol Pentre**

- "Cadwch ein hysgol"
- "Cadwch bob un o'r ysgolion"
- "Mae'n well gen i opsiwn 2 oherwydd ni fyddai'n achosi gormod o gynnwrf"
- "Dw i'n credu y dylai'r plant o ysgol Fron fron fynd i ba bynnag ysgol y dymunant, ond mae'n dibynnu ble maen nhw'n byw"
- "Mae'n well gen i'r ail opsiwn. <u>Pam:</u> mae'r arian ar gyfer y trydydd opsiwn yn rhy beryglus-gallen ni golli pobl. Dim digon o staff ar gyfer y plant i gyd. Dim ond un ysgol sydd ddim yn gallu gweithredu'n iawn felly beth yw'r pwynt"
- 'Mae'n well gen i rif dau a chael gwared ar Fron.'

## Adborth gan Estyn

Ymateb Estyn i'r cynnig i ymgynghori ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy, lle'r opsiwn a ffefrir yw cau Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae gofyn iddo weithredu yn unol â'r Cod, ac nid yw'r Ddeddf yn rhoi unrhyw ofynion statudol ar Estyn i ymwneud â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion y bydd Estyn yn cynnig eu barn. Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi rhoi'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a roddwyd gan y cynigiwr.

**Cyflwyniad:**
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy lle maent yn cynnig cau Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte o 1 Medi 2026. Mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol wedi agor yr ymgynghoriad hwn mewn ymateb i nifer gostyngol o ddisgyblion yn yr awdurdod lleol a chanran uchel o leoedd dros ben yn Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy. Mae rhagamcanion o niferoedd disgyblion yn Ysgol Froncysyllte dros y 5 mlynedd nesaf yn rhagfynegi na fydd unrhyw ddisgyblion llawn amser yn yr ysgol erbyn 2029/30.

**Disgrifiad a Manteision:**
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi nodi rhesymeg glir dros gyflwyno'r cynnig. Mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r galw gostyngol am leoedd ysgol o fewn y ffederasiwn. Mae'r cynnig hefyd yn nodi y gall cyflwr adeiladau sydd wedi'u tanddefnyddio ddirywio, gan gynyddu costau cynnal a chadw. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'n glir y manteision a'r anfanteision posibl i'r opsiwn a ffefrir. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'n glir oblygiadau cost a chynaliadwyedd rhedeg y ffederasiwn o ysgolion yn ei ffurf bresennol, a'r gyllideb ddiffyg sydd gan y ffederasiwn ar hyn o bryd, sef £62,357. Trwy gau Ysgol Gynradd Froncysyllte, byddai ysgolion cynradd y Garth a Phentre yn derbyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £20,880 ar gyfer y pum disgybl sy'n trosglwyddo o Froncysyllte. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'r dewisiadau amgen i'r cynnig yn glir, gan gynnwys parhau â'r sefyllfa bresennol. Mae'n rhoi rhesymau manwl pam mae'r opsiynau amgen wedi'u diystyru. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl rhagweld yn gywir beth allai ddigwydd o ran cynnydd neu ostyngiad yn nifer y ceisiadau am leoedd ysgol i ddisgyblion dros amser. O ran opsiwn 3, nid yw'n ymddangos bod y cynnig wedi ystyried yr opsiwn i ddefnyddio un o safleoedd presennol yr ysgolion. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Risg Ysgolion. Mae'n nodi, trwy fonitro a sicrhau dull cadarn o ymdrin â'r risgiau, y gellir lleihau'r effaith ar ddisgyblion, rhieni, gofalwyr, athrawon a staff cymorth. Mae hyn i'w weld yn rhesymol.

**Agweddau Addysgol y Cynnig**

Mae'r cynigydd yn nodi'n deg, os yw disgybl yn mynychu un o'r ysgolion lleol eraill, y byddant yn elwa o gwricwlwm tebyg. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn nodi'n ddigon clir yr effaith ar safonau, lles ac agweddau at ddysgu a gofal, cymorth ac arweiniad. Nid yw'r ymgynghoriad yn egluro sut y bydd y cyngor yn sicrhau y bydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi. Mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth, mae'r ymgynghoriad yn nodi, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, y byddai'r pennaeth yn gyfrifol am ddwy ysgol yn y Ffederasiwn yn hytrach na thair. Mae'r cyngor yn datgan y byddai hyn yn galluogi'r pennaeth i gael mwy o allu i ganolbwyntio ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgolion sy'n weddill. Mae hyn i'w weld yn rhesymol. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Mae'r ddogfen yn nodi, gan fod pob un o'r ysgolion yn rhai cyfrwng Saesneg, mai bach iawn fydd effaith y newid arfaethedig ar yr iaith Gymraeg. Mae'r cyngor o'r farn felly ei bod yn annhebygol o wella neu leihau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r ymgynghoriad yn cyfeirio at amcanion CSCA yr awdurdod lleol i leihau a lliniaru unrhyw effeithiau posibl ar yr iaith Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig. Mae'r ymgynghoriad yn ystyried yr effaith bosibl o ran teithio y bydd colli Ysgol Froncysyllte yn ei chael ar grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed, gan gynnwys disgyblion ag anghenion ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'n ystyried y costau teithio posibl i'r disgyblion hynny o gartrefi incwm isel nad oes angen trafnidiaeth arnynt ar hyn o bryd i fynychu Ysgol Froncysyllte. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'n glir y broses ymgynghori a'r amserlen ynghyd â phwy fydd yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Gall y gymuned, rhieni a disgyblion fynegi eu barn drwy fynychu un o'r cyfarfodydd ymgynghori a gynlluniwyd neu, fel arall, drwy gwblhau arolwg ar-lein neu fynegi eu barn mewn llythyr neu e-bost. Mae fersiwn atodol o'r ddogfen ymgynghori hon ar gael i bob disgybl yn Wrecsam i'w galluogi i roi eu barn. Bydd sesiynau gyda'r Cynghorau Ysgol perthnasol yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys dolenni i adroddiadau arolwg Estyn diweddaraf pob ysgol. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol i'r darllenydd pe bai'r prif ddeilliannau o bob adroddiad arolygu wedi'u nodi yn y ddogfen. Nid yw'r awdurdod lleol yn rhoi ei farn ar y safonau addysg presennol yn yr ysgolion dan sylw.

**Crynodeb/Casgliad:**

Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth yn yr ardal. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn darparu digon o wybodaeth am ansawdd a safonau addysg yr ysgolion dan sylw yn yr ymgynghoriad.

## Adborth gan yr Undeb Athrawon-NASUWT Cymru

**Casgliad:**

Barn NASUWT yw bod ysgol Fron wedi cael effaith fampiraidd ar ysgolion y Garth a Phentre, gan roi straen ar eu hyfywedd a hyfywedd y ffederasiwn yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, mae ysgolion y Garth a Phentre yn hyfyw iawn, os cânt eu rhyddhau o'r angen i gynnal ysgol Fron, a dyna pam mae NASUWT yn rhoi ein cymeradwyaeth a'n cefnogaeth lawn i Opsiwn 2.

Nodwn fod y ddogfennaeth ymgynghori yn nodi mai Opsiwn 2 yw'r opsiwn y mae'r Awdurdod Lleol yn ei ffafrio fwyaf hefyd. Fodd bynnag, mae NASUWT hefyd yn gofyn yn barchus i'r Awdurdod Lleol gynnig eu cefnogaeth lawn-ynghyd â chamau gweithredu-i'r ddau safle sy'n weddill o Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy, sef y Garth a Phentre.

## Llythyr gan Steve Witherden AS

O'r tri chynnig, hoffwn gytuno â'r cynnig a ffefrir a chefnogi'r Awdurdod Lleol drwy gynnig fy nghymeradwyaeth a'm cefnogaeth lawn i Opsiwn 2. I fod yn hollol glir, byddwn i'n gwrthwynebu cau ysgol Pentre neu ei hisraddio o gwbl.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, byddwn i hefyd yn gwrthwynebu cau neu israddio ysgol y Garth, sydd – er ei bod [ychydig] y tu allan i'r etholaeth-yn hanfodol i lawer o deuluoedd yn fy etholaeth i (y Garth yw'r ysgol gynradd agosaf at fy etholaeth nad yw wedi'i lleoli yn fy etholaeth).

**Dyfarniad**
Yn fy marn i, ni all ysgol Froncystylle barhau i fod yn gynaliadwy nac yn hyfyw yn yr amgylchiadau hyn. Fodd bynnag, credaf y bydd ysgolion Pentre a'r Garth ill dau yn parhau i fod yn hyfyw ac yn gynaliadwy, os cânt eu cefnogi'n briodol.

## Adborth trwy E-bost

Roedd 3 o'r 4 ymatebwr e-bost o blaid y cynnig ac roedd 1 o'r 4 ymatebwr e-bost yn erbyn y cynnig.

**E-bost 1**
“Mae ein [golygwyd hunaniaeth y plentyn] yn ofidus iawn wrth feddwl am gau'r ysgol hon, mae'n effeithio ar iechyd meddwl a lles [golygwyd hunaniaeth y plentyn]”

“Mae [golygwyd hunaniaeth y plentyn] wedi bod yn yr ysgol hon ers [golygwyd nifer y blynyddoedd] ac yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yno. Mae [golygwyd hunaniaeth y plentyn] yn gwerthfawrogi'r athrawon i gyd a safon anhygoel yr addysgu”

**E-bost 2**
“Dim dewis arall ond cau Ysgol Gynradd Fron-hurt oedd ei chadw ar agor gyda dim ond 11 o ddisgyblion heb sôn am 4 eleni”

**E-bost 3**
Rydw i wedi darllen y Ddogfen Ymgynghori Statudol ac ymwelais â'r Ganolfan Gymunedol heddiw i gwrdd â staff Cyngor Wrecsam. Er ei bod yn drist gweld ysgolion pentref yn cau, gan nad oes plant o’r pentref yn mynychu Ysgol Fron, mae'n ymddangos mai Opsiwn 2, sef cau'r ysgol, yw'r unig syniad synhwyrol.

**E-bost 4**
“Hoffwn fynegi fy nghefnogaeth i'r opsiwn o gau ysgol Froncysyllte cyn gynted â phosibl. Mae'n amlwg nad yw'r plant sydd ar ôl yno yn cael addysg gyffredinol o ansawdd dda. Mae'n amhosibl dysgu’r un gwersi i gyfnod allweddol cyfan yn ystod y diwrnod ysgol. Ni fydd y disgyblion yn cael cyfle i ffurfio grwpiau o gyfoedion cyn mynd ymlaen i'r ysgol uwchradd, ac ni fyddant yn elwa o'r gystadleuaeth iach sydd ei hangen i hyrwyddo dysgu ac addysgu. Mae gan y plant hyn gyfleusterau cyfyngedig iawn ac ni fyddant yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn pethau fel gemau tîm yn ystod gwersi addysg gorfforol. Nid yw lleoliad yr ysgol yn hygyrch i geir modern ollwng disgyblion, ac mewn tywydd garw mae'n aml ar gau. Mae goblygiadau ariannol ei chadw ar agor yn fawr. Gellid gwerthu'r safle a'r adeilad a gwario'r arian ar ysgolion lleol eraill. Mae'n bryd rhoi sentimentaliaeth o'r neilltu a chau'r ysgol hon”

## Themâu’r Ymgynghoriad

Mae adborth a gafwyd drwy ymatebion i'r arolwg ar-lein i oedolion, e-byst a sesiynau galw heibio wedi cael eu dadansoddi. Nodwyd yr 8 thema ganlynol:

| **Thema** | **Adborth** |
|---|---|
| Sicrhau hyfywedd Ysgolion Pentre a’r Garth | 1. “Os bydd cau ysgol Froncysyllte, gan ei bod yn anghynaladwy, yn helpu i wneud Ysgol y Garth ac Ysgol Pentre yn fwy diogel, yna rwy'n cefnogi'r opsiwn hwn”<br>2. “Canlyniad tymor hwy yw sicrhau hyfywedd ysgolion Pentre a’r Garth” |
| Effaith andwyol ar y gymuned | 1. “[Mae Froncysyllte yn] ysgol o bwys hanesyddol a bydd ei chau yn ychwanegu ymhellach at y diffyg “cymuned” yn rhan uchaf y pentref”<br>2. “Credaf fod yr ysgolion cymunedol bach hyn mor bwysig i'n cymunedau” |

| | |
|---|---|
| Darparu Addysg Hyblyg | 1. "Mae cynifer o blant yn cael eu haddysgu gartref- ystyriwch addysg hyblyg fel cyfle i'w cadw nhw yn y system ac i gadw llygad arnynt"<br>2. "Rwy'n deall nad yw'r ysgol yn hyfyw ond credaf y dylai'r Ffederasiwn fod wedi caniatáu disgyblion addysg hyblyg. Dylid ystyried hyn er mwyn i'r ysgolion sy'n weddill gynyddu niferoedd" |
| Deilliannau dysgu gwell i ddisgyblion | 1. "Byddai deilliannau dysgu ar gyfer y disgyblion dan sylw yn cael eu hoptimeiddio"<br>2. "Bydd anghenion penodol dysgwyr yn cael eu diwallu mewn perthynas ag oedran" |
| Pryderon ynghylch symud gofal cofleidiol i ysgol arall yn y Ffederasiwn | 1. "Mae Froncysyllte wedi cynnig darpariaeth ardderchog yn yr ardal ond mae wedi cael ei rhwystro gan gynigion fel y clwb ar ôl ysgol yn cael eu symud i safle arall (sawl milltir i ffwrdd) heb unrhyw fodd i gludo'r plant i'r safle a ddewiswyd"<br>2. "O'r 3 ysgol, Fron oedd yr unig un i gadw ei gofal cofleidiol ond gyda'r adeilad newydd yn y Garth a heb y cludiant i gludo plant o Fron, mae plant wedi cael eu wedi potsio a doedd hynny ddim yn deg-dylai cludiant fod wedi cael ei ddarparu" |
| Pryderon am ddiffyg tai yn Froncysyllte | 1. "Nid oes unrhyw ystadau tai newydd wedi'u hadeiladu yn y pentref i ddenu teuluoedd newydd i mewn"<br>2. "Mae stoc tai'r cyngor mor fach-prin yw'r tai 3 gwely, felly fe gollon ni deuluoedd" |

| | |
|---|---|
| Cadw cae'r ysgol at ddefnydd y gymuned | 1. "Byddwn i'n annog CBS Wrecsam i gadw cae'r ysgol yn Froncysyllte fel adnodd cymunedol. Mae'r cae yn destun cyfamod ar gyfer defnydd hamdden / cymunedol"<br>2. "Mae cae'r ysgol yn gae cymunedol sydd â chyfamod. Rwyf am i'r cae hwn aros yn y gymuned-gorffennol, presennol a dyfodol. Mae'n nodwedd bwysig o'r pentref, nid yw'n ddibynnol ar y rôl yn yr ysgol nac ar a yw'r ysgol ar agor neu ar gau" |
| Syniadau / cwestiynau am ddefnydd adeilad ysgol Froncysyllte yn y dyfodol | 1. "Hoffwn wybod beth yw meddyliau hirdymor Cyngor Wrecsam ynglŷn â'r adeilad ar ôl i'r ysgol gau"<br>2. "Rwy'n credu y byddai modd defnyddio'r adeilad ar gyfer fflatiau/llety" |

**Y Gymraeg**

Fe wnaethom hefyd ofyn i bobl am eu syniadau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno'r cynnig. Ni ddewisodd pob ymatebwr ateb yr adran yn yr arolwg oedd yn ymwneud â'r Gymraeg.

Dewisodd 10 ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd 'Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol y byddai'r cynnig dan sylw yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.' Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- "Cyfle i gynnal iaith a diwylliant Cymru yn ysgolion Pentre a'r Garth"
- "Effaith gadarnhaol"
- "Does dim cyfle i'r Gymraeg yno"
- "Dim"
- "Bydd llai o Gymraeg yn cael ei siarad yn y pentref oni bai bod darpariaeth amgen yn cael ei chynnig yn Froncysyllte ei hun"
- "Yn ôl y cwricwlwm newydd i Gymru a chynlluniau datblygu ysgolion cynradd, mae'n fwy tebygol o gyrraedd deilliannau dysgu uwch o ran yr iaith Gymraeg"
- "Os nad oes ysgol yn y pentref yna bydd y defnydd o Gymraeg achlysurol yn y pentref yn gostwng!"
- "Ni fydd cau'r ysgol yn cael unrhyw effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, mewn gwirionedd bydd yn lleihau'r defnydd ohoni. Mae'r ysgol a'r athro presennol yn defnyddio llawer o Gymraeg achlysurol"
- "Mae'r plant yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd ac mae'n beth da o ran eu treftadaeth"
- "Dim"

Dewisodd 8 ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd ‘Yn eich barn chi, pa effeithiau andwyol y byddai'r penderfyniad polisi dan sylw yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?’ Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- “Dim”
- “Byddai'n drist cael adeilad gwag yn yr ardal ond mae addysg ein plant yn golygu mwy”
- “Bydd llai o Gymraeg yn cael ei siarad yn y pentref oni bai bod darpariaeth amgen yn cael ei chynnig yn Froncysyllte ei hun”
- “Dim effeithiau andwyol yn debygol”
- “Ni fydd cau'r ysgol yn cael unrhyw effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, mewn gwirionedd bydd yn lleihau’r defnydd ohoni. Mae'r ysgol a'r athro presennol yn defnyddio llawer o Gymraeg achlysurol a bydd colli’r Gymraeg yn cael ei siarad bob dydd yn yr ysgol yn cael effaith andwyol”
- “Maen nhw'n trin y Gymraeg yr un mor bwysig â’r Saesneg”
- “Dim”
- “Iechyd meddwl y disgyblion a'r staff yn yr ysgol nawr”

Dewisodd 6 ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd ‘Yn eich barn chi, sut gallai’r polisi dan sylw gael ei lunio neu ei ddiwygio fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?’ Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- “Defnyddio’r arian sy’n cael ei arbed o ganlyniad i gau’r ysgol i brynu adnoddau ar gyfer ysgolion eraill”
- “Cau pob un o'r tair ysgol a symud i un ysgol wedi'i hariannu'n dda”
- “Gellid cynnig darpariaeth dysgu Cymraeg i’r gymuned yn Froncysyllte”
- “Mae nifer uwch o ddisgyblion yn y dosbarth yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddysgu, ymarfer a chadw'r Gymraeg. Mae lleoliadau cynradd mwy o faint yn cael mwy o gyfleoedd ariannu ar gyfer rhaglenni dysgu Cymraeg”
- “Treuliodd yr athro presennol flwyddyn sabothol yn dysgu Cymraeg felly mae'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol gyda'i Chriw Cymraeg yn rhagorol. Peidiwch â cholli hynny!”
- “Gwersi Cymraeg rheolaidd”

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd ‘Yn eich barn chi, sut gallai’r polisi dan sylw gael ei lunio neu ei ddiwygio fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol neu fel y byddai’n cael effaith lai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?’ Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- “Defnyddio’r arian sy’n cael ei arbed o ganlyniad i gau’r ysgol i brynu adnoddau ar gyfer ysgolion eraill”

- “Symud yr holl athrawon a disgyblion i un ysgol a symud y cyllidebau”
- “Gellid defnyddio'r ysgol fel canolfan dysgu Cymraeg”
- “Defnyddio'r Gymraeg bob dydd”

**Trin Pawb yn Deg**

Fe wnaethom ofyn cwestiynau ynghylch pa mor deg oedd pobl yn credu oedd y cynnig. Ni ddewisodd pob ymatebwr ateb yr adran am ‘drin pawb yn deg’ yn yr arolwg.

| Ydych chi'n meddwl y gallai'r strategaeth hon neu'r cynnig hwn greu anfantais neu wneud pethau'n annheg i unrhyw grwpiau o bobl neu unigolion? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw | 3 |
| Nac ydw | 6 |
| Ddim yn siŵr/Ddim yn gwybod | 1 |
| **Cyfanswm** | **10** |

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd ‘Os ydych chi'n meddwl y gallai'r cynnig hwn greu anfantais neu wneud pethau'n annheg i unrhyw grwpiau o bobl neu unigolion, pa grwpiau neu unigolion allai fod dan anfantais yn eich barn chi a pham?’ Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- “Grwpiau nad ydynt yn gymunedol, gan nad ydynt yn yrwyr. Rhaid diwallu anghenion trafnidiaeth a chyllid trwy’r ALI!”
- “Heb ysgol bentref mae'n rhaid i rieni a gofalwyr deithio i'r ysgol ac mae'r pentref yn colli ei ganolfan i bobl ifanc. Mae'r ysgol yn defnyddio'r eglwys yn aml a'r ganolfan gymunedol ar gyfer y perfformiadau Nadolig”
- “Bydd yn rhaid i'r genhedlaeth nesaf yn y pentref i gael plant eu hanfon ymhellach i ffwrdd. Bydd y pentref yn colli ei ganolbwynt a'i galon. Fy mhlant yw’r ail genhedlaeth i fynd drwy'r ysgol ac ni fyddant yn cael cyfle i anfon eu plant eu hunain yno. Mae ffreutur y capel yn rhestredig gradd 2 ac rydym mewn perygl o golli hynny a'r ysgol sydd heb ei restru os caiff ei gwerthu ar gyfer tai”
- “Disgyblion presennol ag ADY ac anghenion cymdeithasol ac emosiynol yn arbennig”

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn ‘Ydych chi'n meddwl bod unrhyw botensial yn y ffordd yr ydym yn cyflawni'r strategaeth neu'r cynnig dan ystyriaeth i wneud pethau'n decach i'r grwpiau neu'r unigolion rydych chi wedi'u nodi?’ Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- “Cau’r ysgol yn gynt”
- “Os ydych chi'n cynnwys unrhyw ddulliau o ddiwallu anghenion y grwpiau hynny”
- “Defnyddio’r safle fel ysgol goedwig / canolfan ddysgu awyr agored, efallai ar gyfer addysg hyblyg ac ati yn hytrach na’i chau’n gyfan gwbl”
- “Oherwydd sut mae ysgol Pentre, byddai unrhyw blentyn yn cael ei groesawu gyda breichiau agored”.

**Carbon**
Gofynnon ni i bobl a oeddent yn meddwl y byddai'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol hirdymor ar leihau carbon yn ein hamgylchedd. Ni ddewisodd pob ymatebwr ateb yr adran yn yr arolwg oedd yn ymwneud â charbon.

| Ydych chi'n meddwl y bydd y strategaeth neu'r cynnig dan sylw yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol hirdymor ar leihau carbon yn ein hamgylchedd? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Effaith gadarnhaol hirdymor | 3 |
| Effaith negyddol hirdymor | 3 |
| Effeithiau cadarnhaol a negyddol hirdymor | 0 |
| Dim effaith | 3 |
| Ddim yn gwybod/siŵr | 0 |
| **Cyfanswm** | **9** |

Dewisodd 4 ymatebwr ateb y cwestiwn ‘Ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol hirdymor? Os felly, disgrifiwch y rhain isod, ynghyd ag unrhyw syniadau i'w lleihau.’ Derbyniwyd y sylwadau canlynol:

- “Cyfle i gynyddu'r defnydd o fysiau i'r Garth a Phentre”
- “Mae'n hynod debygol y bydd y Cyngor yn gwerthu safle ysgol Froncysyllte i'w ailddatblygu (fel y gwnaed yn y gorffennol gydag ysgolion eraill sydd wedi cau). Bydd hyn yn cael effaith negyddol hirdymor oherwydd byddai'r traffig ychwanegol (a fyddai'n uwch na defnyddwyr yr ysgol), yn ogystal â phresenoldeb mwy o adeiladau, yn cynyddu'r ôl troed carbon”
- “Mwy o amser/pellter teithio i fynd â phlant i safle arall”
- “Rwy'n credu y gellid defnyddio'r adeilad ar gyfer fflatiau/llety, gan roi mwy yn hytrach na llai o bwysau ar ffyrdd lleol a’r ddarpariaeth parcio. Mae hyn eisoes wedi cael ei effeithio'n fawr mewn ffordd negyddol gan ddatblygiad y draphont ddŵr.

Gellid gwneud darpariaeth yn y ganolfan gymunedol bresennol ar gyfer ymwelwyr â'r draphont ddŵr (amgueddfa a lleoedd parcio) a symud digwyddiadau cymunedol gan gynnwys dysgu Cymraeg i'r ysgol. Efallai wedyn y byddai modd cadw'r ysgol ar agor. Ai dyma'r hyn rydych chi'n cyfeirio ato ar dudalen 9 o'r ddogfen ymgynghori o dan y pennawd “Dewisiadau eraill yn lle cau”? Pam ystyriwyd bod hyn “ddim yn ddichonadwy”? Byddai mwy o fanylion am yr hyn yr oeddech chi'n ei ystyried o dan y pennawd hwn yn ddefnyddiol os gwelwch yn dda”.

## Data Monitro Cydraddoldeb-‘Amdanoch Chi’

Gofynnwyd nifer o gwestiynau monitro cydraddoldeb yn yr arolwg o dan y pennawd ‘Amdanoch Chi’. Ni ddewisodd pob ymatebwr ateb yr adran ‘amdanoch chi’ yn yr arolwg. Y nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw:

- Oedran
- Rhyw
- Ailbennu Rhywedd
- Hil (gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd)
- Anabledd
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Crefydd neu Gred (gan gynnwys diffyg cred)
- Priodas a Phartneriaeth Sifil

Yn ogystal, mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru roi sylw dyledus i'r angen am leihau'r canlyniad anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.

**Oedran**

Dewisodd 9 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| **Beth yw eich oedran?** | **Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn)** |
|---|---|
| Dan 11 oed | 0 |
| 11-15 mlynedd | 0 |
| 16-24 oed | 0 |

| | |
|---|---|
| 25-34 oed | 0 |
| 35-44 oed | 4 |
| 45-54 oed | 2 |
| 55-64 oed | 3 |
| 65-74 oed | 0 |
| 75 oed a hŷn | 0 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **9** |

**Rhyw**

Dewisodd 10 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| **Beth yw eich rhywedd?** | **Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn)** |
|---|---|
| Gwryw | 2 |
| Benyw | 8 |
| Arall | 0 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **10** |

**Ailbennu Rhywedd**

Dewisodd 10 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| **Ydy eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a neilltuwyd adeg eich geni?** | **Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn)** |
|---|---|
| Ydy | 1 |
| Nac ydy | 9 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 0 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm** | **10** |

**Hunaniaeth Hiliol-Genedlaethol**

Dewisodd 10 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| **Sut byddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?** | **Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn)** |
|---|---|
| Cymro/Cymraes | 7 |
| Sais/Saesnes | 1 |
| Albanwr/Albanes | 0 |
| Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon | 0 |
| Prydeinig | 1 |
| Arall | 1 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **10** |

**Anabledd**

Dewisodd 10 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| **A yw eich gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi eu cyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu sy'n debygol o bara, am 12 mis o leiaf?** | **Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn)** |
|---|---|
| Ydyn, wedi'u cyfyngu'n fawr | 1 |
| Ydyn, wedi'u cyfyngu ychydig | 1 |
| Nac ydyn | 8 |

| | |
|---|---|
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **10** |

**Gofalwr**

Dewisodd 9 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ydych chi'n gofalu am – neu'n rhoi unrhyw gymorth neu gefnogaeth i – aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd anabledd/salwch corfforol neu feddyliol hirdymor neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw | 2 |
| Nac ydw | 7 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **9** |

**Iaith**

Dewisodd 10 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Beth yw eich dewis iaith? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Saesneg | 9 |
| Cymraeg | 1 |
| Arall | 0 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **10** |

**Hil-Ethnigrwydd**

Dewisodd 10 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn

| **Beth yw eich grŵp ethnig?** | **Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn)** |
|---|---|
| Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd, o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig) | 8 |
| Gwyddelig | 0 |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 0 |
| Roma | 0 |
| Unrhyw gefndir Gwyn arall | 1 |
| Asiaidd – Indiaidd | 0 |
| Asiaidd – Pacistanaidd | 0 |
| Asiaidd – Bangladeshaidd | 0 |
| Asiaidd – Tsieineaidd | 0 |
| Asiaidd – unrhyw gefndir Asiaidd arall | 0 |
| Du – Caribïaidd | 0 |
| Du – Affricanaidd | 0 |
| Du – Unrhyw Gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall | 0 |
| Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd | 0 |
| Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd | 0 |
| Cymysg – Gwyn ac Asiaidd | 0 |
| Unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall | 0 |
| Arabaidd | 0 |
| Unrhyw ethnigrwydd arall | 0 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 1 |
| **Cyfanswm** | **10** |

**Crefydd neu Gred (gan gynnwys diffyg cred)**
Dewisodd 10 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| **Beth yw eich crefydd neu eich cred?** | **Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn)** |
|---|---|
| Dim crefydd | 3 |
| Cristion (pob enwad) | 5 |
| Mwslim | 0 |
| Bwdhydd | 0 |
| Hindŵ | 0 |
| Iddew | 0 |
| Sikh | 0 |
| Anffyddiwr | 1 |
| Arall | 0 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 |
| **Cyfanswm** | **10** |

**Priodas a Phartneriaeth Sifil**
Dewisodd 10 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| **Ydych chi’n briod neu mewn partneriaeth sifil?** | **Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn)** |
|---|---|
| Ydw | 5 |
| Nac ydw | 3 |
| Rwy'n berson ifanc dan 18 oed | 0 |
| Rwy'n wraig weddw/ŵr gweddw | 0 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 2 |
| **Cyfanswm** | **10** |

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Dewisodd 9 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn

| Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu wedi bod yn feichiog neu wedi bod ar absenoldeb mamolaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Ydw | 0 |
| Nac ydw | 9 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 0 |
| **Cyfanswm** | **9** |

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

Dewisodd 10 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Heterorywiol neu syth | 9 |
| Dyn hoyw | 0 |
| Menyw hoyw/lesbiad | 0 |
| Deurywiol | 0 |
| Arall | 0 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 1 |
| **Cyfanswm** | **10** |

**Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol-Budd-daliadau sy’n Dibynnu ar Brawf Modd**
Dewisodd 9 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| **Ydych chi neu'ch aelwyd yn derbyn unrhyw fudd-daliadau sy’n dibynnu ar brawf modd (er enghraifft, Credyd Cynhwysol, Credyd Pensiwn, Lwfans Ceisio Gwaith, Credydau Treth, Lwfans Gofalwyr, Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor)?** | **Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn)** |
|---|---|
| Ydw | 5 |
| Nac ydw | 3 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 |
| **Cyfanswm** | **9** |

**Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol**
Dewisodd 9 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| **Ydych chi neu unrhyw un sy'n byw yn eich cartref yn derbyn budd-daliadau anabledd (er enghraifft: Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini, Taliad Annibyniaeth Bersonol, Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog, Lwfans Gweini Cyson, Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel)?** | **Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn)** |
|---|---|
| Ydw | 2 |
| Nac ydw | 6 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 1 |
| **Cyfanswm** | **9** |

**Ward Etholiadol**
Dewisodd 9 ymatebwr ateb y cwestiwn hwn.

| Ward Etholiadol | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Gogledd Acre-fair | 1 |
| Acton a Maes-y-dre | 0 |
| Bangor-is-y-coed | 0 |
| Parc Borras | 0 |
| Bronington a Hanmer | 0 |
| Brymbo | 0 |
| Bryn Cefn | 0 |
| Brynffynnon | 0 |
| Cartrefle | 0 |
| Dwyrain Cefn | 1 |
| Gorllewin Cefn | 0 |
| Dyffryn Ceiriog | 0 |
| Gogledd y Waun | 3 |
| De'r Waun | 0 |
| Coed-poeth | 0 |
| Dyffryn Ceiriog | 0 |
| Erddig | 0 |
| Esclys | 0 |
| Garden Village | 0 |
| Dwyrain/Gorllewin Gresffordd | 0 |
| Grosvenor | 0 |
| Gwenfro | 0 |
| Dwyrain Gwersyllt | 0 |
| Gogledd Gwersyllt | 0 |

| | |
|---|---|
| De Gwersyllt | 0 |
| Gorllewin Gwersyllt | 0 |
| Hermitage | 0 |
| Holt | 0 |
| Acton Fechan | 0 |
| Llangollen Wledig | 2 |
| Llai | 0 |
| Marchwiel | 0 |
| Marford a Hoseley | 0 |
| Mwynglawdd | 0 |
| New Broughton | 0 |
| Offa | 0 |
| Owrtyn a De Maelor | 0 |
| Pant a Johnstown | 0 |
| Pen-y-cae | 0 |
| Pen-y-cae a De Rhiwabon | 0 |
| Ponciau | 0 |
| Queensway | 0 |
| Rhos | 0 |
| Rhosnesni | 0 |
| Yr Orsedd | 0 |
| Rhiwabon | 0 |
| Smithfield | 0 |
| Stansty | 0 |
| Clwydwen | 0 |
| Wynnstay | 0 |
| Dydw i ddim yn byw yn Wrecsam | 0 |
| Mae’n well gen i beidio â dweud | 2 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm** | **9** |

## Cwestiynau Monitro Ansawdd yr Arolwg

Ar ddiwedd yr arolwg, fe wnaethom ofyn tri chwestiwn am brofiadau pobl o gwblhau'r arolwg. Nid oedd pob person wedi dewis ateb cwestiynau monitro ansawdd yr arolwg.

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Pa mor hawdd oedd yr arolwg hwn i'w gwblhau?' dewisodd 12 ymatebwr ateb.

| Pa mor hawdd oedd yr arolwg hwn i'w gwblhau? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Hawdd iawn | 5 |
| Eithaf hawdd | 7 |
| Eithaf anodd | 0 |
| Anodd iawn | 0 |
| Ddim yn gwybod/Ddim yn siŵr | 0 |
| **Cyfanswm** | **12** |

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Yn eich barn chi, a wnaethom ofyn y cwestiynau cywir am destun yr arolwg hwn?' dewisodd 14 ymatebwr ateb.

| Yn eich barn chi, a wnaethom ofyn y cwestiynau cywir am destun yr arolwg hwn? | Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn) |
|---|---|
| Do | 3 |
| Naddo | 6 |
| Ddim yn siŵr | 5 |
| **Cyfanswm** | **14** |

Dewisodd 9 ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd ‘Os gwnaethoch chi ateb ‘Naddo’ neu ‘Ddim yn siŵr’ i’r cwestiwn diwethaf, a oes unrhyw gwestiynau eraill rydych chi'n meddwl y dylen ni fod wedi’u gofyn?’ Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- “Pam na chafodd y penderfyniad hwn ei wneud cyn dechrau'r flwyddyn ysgol?”
- “Mae angen mwy o ffocws ar lesiant ac effaith y cynnig hwn ar y gymuned, rhieni a phlant yn hytrach na’i wneud am y Cyngor”
- “Effaith yr opsiwn a awgrymir ar y plentyn”
- “Rwy'n credu y dylai fod mwy o gwestiynau am ddyfodol yr adeilad a'r effaith ar y gymuned”
- “A yw'r ysgolion cynradd agosaf wedi'u cynnwys yn y cynnig hwn? A fydd yr ysgol gynradd agosaf yn cael lleoedd neu gyllid i ddyrannu lleoedd i ddisgyblion? A yw rhieni/gwarcheidwaid wedi'u cynnwys ym mhroses y cynnig hwn?”
- “Pa opsiynau eraill alla i eu hystyried yn hytrach na dim ond yr un opsiwn sy'n cael ei gyflwyno i mi!”
- “Nid oes cyfle i awgrymu opsiynau eraill”
- “Nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r disgyblion a'r effaith y bydd hyn yn ei chael arnyn nhw. Roedd hynny'n rhyfedd”
- “Sut y bydd hyn yn effeithio ar blant a rhieni. Plant yw'r peth pwysicaf yn hyn i gyd ac mae gymaint yn well i blant ag anghenion ychwanegol fod mewn ysgol fach-nid arian yn unig sy’n bwysig!”

Mewn ymateb i’r cwestiwn ‘Pan ofynnon ni gwestiwn, oedd hi'n glir beth oedden ni'n ei ofyn?’ dewisodd 14 ymatebwr ateb.

| **Pan ofynnon ni gwestiwn, oedd hi'n glir beth oedden ni'n ei ofyn?** | **Nifer yr Ymatebwyr (a atebodd y cwestiwn hwn)** |
|---|---|
| Oedd | 10 |
| Nac oedd | 1 |
| Ddim yn siŵr | 3 |
| **Cyfanswm** | **14** |

Dewisodd 1 ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd ‘Os gwnaethoch chi ateb ‘Nac oedd’ neu ‘Ddim yn siŵr’ i’r cwestiwn diwethaf, a allech chi roi mwy o wybodaeth am ba gwestiynau nad oeddent yn glir a pham?’ Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- “Mae rhai o'r cwestiynau'n ymddangos braidd yn ddibwrpas”

Dewisodd 3 ymatebwr ateb y cwestiwn testun rhydd ‘Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch sut gallen ni wella arolygon yn y dyfodol?’ Mae sylwadau wedi'u cynnwys isod:

- “Na, mae'n iawn”
- “Roedd yn anodd dod o hyd iddo”
- “Gwnewch o'n fwy personol, mae'n ymwneud â bywydau pobl”

## Asesiadau Effaith

**Asesiad Effaith Integredig**
Roedd yr Asesiad Effaith Integredig ar gael i'w weld/lawrlwytho o'r dudalen Ymgynghori ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy ar wefan y Cyngor. Roedd copïau caled hefyd ar gael ar gais.

**Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg**
Roedd yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg ar gael i'w weld/lawrlwytho o'r dudalen Ymgynghori ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy ar wefan y Cyngor. Roedd copïau caled hefyd ar gael ar gais.

**Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned**
Roedd yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned ar gael i'w weld/lawrlwytho o'r dudalen Ymgynghori ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy ar wefan y Cyngor. Roedd copïau caled hefyd ar gael ar gais.

**Asesiad o’r Effaith ar Drafnidiaeth**
Roedd yr Asesiad o’r Effaith ar Drafnidiaeth ar gael i'w weld/lawrlwytho o'r dudalen Ymgynghori ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy ar wefan y Cyngor. Roedd copïau caled hefyd ar gael ar gais.

## Cwestiynau Cyffredin

Cafodd cwestiynau cyffredin eu cofnodi yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd adran ‘Cwestiynau Cyffredin’ gydag ymatebion ar gael ar blatfform cyfranogiad y Cyngor, Eich Llais, a chafodd ei lanlwytho i’r dudalen Ymgynghori ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy ar wefan y Cyngor.

## Crynodeb Cyffredinol o'r Canfyddiadau

**O blaid y cynnig:**

- Roedd 8 o 14 ymateb i'r arolwg oedolion o blaid y cynnig.
- Roedd 15 o 25 ymateb i'r arolwg plant a phobl ifanc o blaid y cynnig.
- Roedd 3 o 15 ymateb gan y Cynghorau Ysgol o blaid y cynnig.
- Roedd 6 o 7 llythyr ac e-bost o blaid y cynnig.

**Yn erbyn y cynnig:**

- Roedd 5 o 14 ymateb i'r arolwg oedolion yn erbyn y cynnig.
- Roedd 4 o 25 ymateb i'r arolwg plant a phobl ifanc yn erbyn y cynnig.
- Roedd 4 o 15 ymateb gan y Cynghorau Ysgol yn erbyn y cynnig.
- Roedd 1 o 7 llythyr ac e-bost yn erbyn y cynnig.

**Ddim yn siŵr:**

- Dywedodd 1 o 14 ymateb i’r arolwg oedolion nad oeddent yn gwybod sut roedden nhw'n teimlo am y cynnig.
- Dywedodd 6 o 25 ymateb i’r arolwg plant a phobl ifanc nad oeddent yn gwybod sut roedden nhw'n teimlo am y cynnig.
- Roedd 8 o 15 ymateb gan y Cynghorau Ysgol yn nodi nad oeddent yn gwybod sut roedden nhw'n teimlo am y cynnig.
- Nid oedd 0 o 7 llythyr ac e-bost yn nodi a oeddent o blaid y cynnig ai peidio.

## Casgliad ac Ymateb yr Awdurdod Lleol

Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Awdurdod Lleol o’r farn bod manteision posibl yr opsiwn a ffefrir (Opsiwn 2) yn bellgyrhaeddol ac yn drech na’r ychydig anfanteision posibl. Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod lleoedd addas a digonol ar gael mewn ysgolion, wrth ddarparu gwasanaethau addysg effeithlon ac effeithiol i ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â phroblemau digonolrwydd lle bo hynny'n berthnasol, gan gynnwys galw isel am leoedd i ddisgyblion, y niferoedd ar y gofrestr ar hyn o bryd a'r nifer a ragamcenir.

Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig presennol ac i gynnal y status quo, mae'n debygol na fyddai’r Awdurdod Lleol yn gallu mynd i'r afael â'r broblem o niferoedd isel o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte na chydymffurfio â'i ddyletswydd i fonitro'r galw am leoedd ysgol a sicrhau hyfywedd yr ystâd ysgolion.

## Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyfarfod ar **20 Ionawr 2026** i drafod yr ymgynghoriad mewn perthynas â Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy. Bydd gofyn i'r Bwrdd Gweithredol roi eu cymeradwyaeth i barhau i'r cam Hysbysiad Statudol i sefydlu'r ddarpariaeth arbenigol newydd. Mae hyn yn cynnwys Cyfnod Gwrthwynebu ffurfiol o 28 diwrnod lle mae'n rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig yn ysgrifenedig. Yn dilyn hyn, bydd Swyddogion yn dychwelyd i'r Bwrdd Gweithredol i wneud y penderfyniad terfynol ym mis **Mehefin 2026**.